

## KYFFIN, EDWARD (c. 1558 - 1603), clerigwr a mydryddwr salmau

**Enw:** Edward Kyffin  
**Dyddiad geni:** c. 1558  
**Dyddiad marw:** 1603  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** clerigwr a mydryddwr salmau  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Barddoniaeth  
**Awdur:** Gildas Tibbott

Credir mai ef oedd 'my brother Edward Kyffin preacher' a enwir yn ewyllys [Maurice Kyffin](#) ac a'i profodd; os felly, yr oedd yn fab Thomas Kyffin o Groesoswallt a Chatrin, merch ieuengaf Robert Lloyd o Blas Hersedd, Sir y Fflint. Prin iawn yw'r wybodaeth am ei yrfa. Ganed ef yng Nghroesoswallt. Aeth i Goleg Iesu, Caergrawnt, ond nid ymddengys iddo gymryd gradd. Ordeiniwyd ef yn ddiagon yn Llundain, 14 Mai 1585, yn 27 oed, ac yn offeiriad ym Mangor, 28 Rhagfyr 1590; cofnodir hefyd ei enw fel un o'r tystion mewn gwasanaeth ordeinio yng nghapel yr esgob ym Mangor, 26 Medi 1593. Bu'n gurad S. Martin Outwich, Llundain, a diau mai yno yr oedd pan fu farw o'r pla mawr yn 1603.

Kyffin oedd awdur *Rhann o Psalmaa Dafydd Brophwyd Ivw Canu ar ôl y dôn arferedig yn Eglwys Loegr* ('Simon Stafford a'i printiodd yn Llundain dros [Thomas Salisbury](#) 1603'). Y mae'n amheus a gyhoeddwyd y llyfryn hwn o gwbl; dim ond copi Ll.G.C. sydd ar gael, hyd y gwyddys. Ni chynnwys ond y 12 salm cyntaf a'r pum adnod cyntaf o'r drydedd ar ddeg wedi eu gosod ar fesur awdl gywydd, ochr yn ochr â'r testun Beiblaidd ac yn dilyn llythyr cyflwyniad Kyffin yn rhoddi'r rhesymau a'i symbylodd i ymgymryd â'r gwaith. Yn wyneb yr hyn a ddywaid [Maurice Kyffin](#), yn ei ragymadrodd i *Deffynniad Ffydd Eglwys Loegr*, 1595, am yr angen am fydryddu'r salmau Cymraeg nid yw'n annhebyg mai ar ei anogaeth ef yr ymgymerodd ei frawd Edward â'r gorchwyl. Dywaid [Thomas Salisbry](#), mewn llythyr at [Syr John Wynn](#) o Wydir, fod Kyffin, ar ôl mydryddu tua 50 o'r salmau, wedi syrthio'n ysglyfaeth i'r pla yn 1603. Hynny, yn ddiau, sy'n cyfrif paham nad argraffwyd mwy ohonynt.

Mewn un yn unig o'r tair ffurf sydd ar dudalennau rhagarweiniol *Psalmaa y Brenhinol Brophwyd Dafydd*, gan [William Middelton](#), 1603, ceir, ar dd. 3-4, 'Mawl-gerdh farwnad i Gapten William Middelton' gan Kyffin. Nid oes sicrwydd ai efe ynteu g r arall o'r un enw, a raddiodd yn Rhydychen ac a fu'n ficer Whitford a Chaerwys yn nechrau'r 17eg ganrif, yw'r Edward Kyffin a enwir fel awdur 'The pronunciation of the Letters in the British tongue' ynghyd ag 'A comparison of the pronunciation of the letters in Welsh, to the Greeke and Hebrew Letters' a geir ar ddechrau *Car-wr y Cymru*, 1631.

### Awdur

Gildas Tibbott, (1900 - 1979)

### Ffynonellau

W. P. Williams (gol.), *Deffynniad Ffydd Eglwys Loegr* (Bangor 1908)

W. Ll. Davies, 'Welsh Metrical Versions of the Psalms,' yn *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, ii, 276

A. Ivor Pryce, *The Diocese of Bangor in the sixteenth century being a digest of the registers of the bishops, A.D. 1512-1646* (1923), 65-6

J. Ballinger a Jones, *The Bible in Wales* (London 1906), 23-4

Venn, *Alumni Cantabrigienses*

T. R. Roberts ('Asaph'), *Edmwnd Prys, archddiacon Meirionydd traethawd bywgraffyddol a beirniadol*, 122-7

rhagymadrodd J. Ballinger i *Rhan o Salmaa Dafydd Broffwyd, i'w canu ar ôl y dôn arferedig yn Eglwys Loegr. Argraffiad cyfatebol o'r unig gopi - yn awr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru - o'r cyfieithiad gan Edward Kyffin 1603* (Caerdydd 1930)

T. H. Parry-Williams, *Canu Rhydd Cynnar* (1932)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

